Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

SWYDDOGOL

Heddlu • Police DYFED-POWYS

**Cyfarfod:** Y Bwrdd Plismona
**Lleoliad:** Ystafell Gynhadledd ACPO
**Dyddiad:** 24 Mawrth 2026
**Amser:** 1.30pm–3.30pm

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | • Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>• Y Prif Gwnstabl, Ifan Charles<br>• Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh), Carys Morgans<br>• Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Nicola Davies |
| **Hefyd yn bresennol:** | • Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Ross Evans *(Eitem 3a a 3b ar yr agenda)<br>• Pennaeth Gwasanaethau Fforensig, Dorian Griffiths (DG)** (Eitem 3a a 3b ar yr agenda)<br>• Swyddog Staff, Ditectif Arolygydd Samantha Gregory (SG)<br>• Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM) |
| **Ymddiheuriadau:** | • Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries<br>• Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, Linda Williams |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir.

## 2. Yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| PB 117 | SCHTh i rannu Adroddiad y Rhaglen Cadetiaid â'r Panel Heddlu a Throseddu. | Wedi'i gwblhau. |
| PB 118 | Yr heddlu i drafod â'r Prif Arolygydd ar gyfer Gwasanaethau'r Ddalfa pa gynllun cyfathrebu y gallai'r heddlu ei roi ar waith yn y ddalfa i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael gan wasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer arestio unigolion am yrru dan ddylanwad cyffuriau. | Wedi'i gwblhau.<br><br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |

| | | |
|---|---|---|
| PB 119 | Yr Heddlu i ddosbarthu canllawiau i staff ynghylch etholiad y Senedd sydd ar ddod. | Wedi'i gwblhau.<br><br>Bwriedir cyhoeddi canllawiau erbyn diwedd y mis. |

## 3. Pwnc ffocws:

### a) Gwasanaethau fforensig

Rhoddodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro a'r Pennaeth Gwasanaethau Fforensig yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ynghylch cyflwyno darpariaeth fforensig o fewn yr heddlu. Mae'r heddlu yn aros am waith papur cytundeb S22a mewn perthynas â chydweithrediad y tri heddlu ar gyfer y gwasanaeth fforensig rhwng heddluoedd Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent yn dilyn adborth ar fersiwn cynharach.

Sicrhawyd trafodaeth ynghylch y ddarpariaeth fforensig newydd, y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiwygio'r gwasanaeth fforensig, yn ogystal â manteision y model prif ganolfan a chanolfannau lloeren a chydweithredu.

### b) Y Gynghrair Fforensig a Chonsortiwm Caffael Gwasanaethau Fforensig Arfordir y Gorllewin a'r De

Cyflwynodd rheolwr y rhaglen bapur diweddaru i'r bwrdd mewn perthynas â chydgyfeirio Consortiwm Arfordir y Gorllewin a'r De i'r System Prynu Digidol. Caiff hyn ei gynnal a'i reoli gan BlueLight Commercial, ac mae'r trefniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE) yn cael eu cynnal i ddiogelu rolau a swyddi Tîm Rheoli Contractau Consortiwm Arfordir y Gorllewin a'r De ar gyfer y dyfodol.

Roedd pedwar ar bymtheg o heddluoedd wedi elwa o gontract(au) caffael gwasanaethau fforensig Consortiwm Arfordir y Gorllewin a'r De (y Consortiwm) ers 2007 hyd at fis Mehefin 2021. Heddlu Avon a Gwlad yr Haf oedd yn gyfrifol am gynnal y consortiwm hyd at fis Mehefin 2021, pan y cyflwynwyd rhybudd eu bod yn tynnu'n ôl o'u cyfrifoldeb.

O ganlyniad uniongyrchol i'r hysbysiad eu bod yn tynnu'n ôl, cytunodd heddluoedd Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent ar y cyd mai Dyfed-Powys fyddai'n cynnal y Consortiwm o dan Gytundeb Adran S22a. Roedd hyn yn caniatáu iddynt gynnal proses ail-dendro, gan liniaru risgiau sylweddol i barhad y gwasanaethau fforensig a sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth effeithiol i'r heddluoedd, dioddefwyr a'r system cyfiawnder troseddol ehangach. Dewisodd pymtheg o heddluoedd i barhau i fod yn rhan o'r Consortiwm.
Mae contract Consortiwm Arfordir y Gorllewin a'r De yn darparu gwasanaethau ar ffurf saith lot gydag ystod eang o gynigion o ran gwasanaeth fforensig drwy'r farchnad, gan gynnwys:

- Dadansoddi DNA staeniau troseddau
- Esgidiau
- Profion cyffuriau

- Profion tocsicoleg syml ar gyfer gwrthdrawiadau traffig ffyrdd
- Tocsicoleg gwaith achos a.
- Mathau eraill o waith achos sy'n ymgorffori arfau tanio, a disgyblaethau fforensig eraill i gynorthwyo ymchwiliadau i lofruddiaethau, achosion o dreisio, trais difrifol a throseddau mawr.

Yn dilyn y cytundeb a wnaed yng nghyfarfod Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ym mis Rhagfyr 2024 i uno holl gontractau fforensig yr heddlu i un system genedlaethol, gweithiodd Tîm Rheoli Contractau y Consortiwm yn agos â'r Swyddfa Gartref, Bluelight Commercial a'r Rhwydwaith Gallu Fforensig i gyflawni'r prosiect er mwyn cydgyfeirio heddluoedd y consortiwm ac Uned Gweithrediadau Arbennig Dwyrain Canolbarth Lloegr i System Brynu Dynamig BlueLight Commercial.

Yn ei rôl fel arweinydd yr heddlu cartref ar ran heddluoedd y consortiwm, goruchwyliodd y Prif Gwnstabl y gwaith o gyflawni'r cynllun lefel uchel, y gwaith o'i lywodraethu, ei strwythur(au) a'r gwaith cyfathrebu a chyflawni, gan sicrhau y cydgyfeirir yr heddluoedd yn llwyddiannus ac yn effeithiol.

Y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r contractau newydd ar gyfer y pymtheg heddlu yw 1 Ebrill 2026. Yn dilyn trafodaethau â BlueLight Commercial, cytunwyd, er mwyn sicrhau parhad busnes, i symud y contract fis yn ei flaen, yn weithredol o fis Mawrth 2026 ymlaen. Mae hyn wedi'i gwblhau.

Mae gan gydweithrediad pymtheg heddlu Consortiwm Arfordir y Gorllewin a'r De gytundeb S22a ar waith. Mae'r heddlu wedi hysbysu bwrdd strategol y Consortiwm eu bod yn bwriadu ysgrifennu at bob heddlu i nodi diddymiad y contract S22a, yn weithredol o 1 Ebrill 2026 ymlaen. Ar ôl hynny, bydd yr holl heddluoedd sy'n aelodau yn symud i'r system brynu dynamig cenedlaethol. Diolchodd y CHTh i'r Prif Gwnstabl am y diweddariad a nododd y datblygiad.

### b) Yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau Pobl a Datblygu Sefydliadol

Mae'r Strategaeth Pobl, Diwylliant a Moeseg i gael ei diweddaru i gynnwys y fersiwn ddiweddaraf o 'Ein Cynllun a'n Llw Diwylliant' yn dilyn ei lansiad yn sioeau teithiol y Prif Swyddog ym mis Chwefror.

Mae'r timau Pobl a Datblygu Sefydliadol a Chyfathrebu Corfforaethol bellach yn gweithio i gyflwyno cynllun gweithredu i ymgorffori 'Ein Llw Diwylliant' ar draws yr holl strategaethau, polisïau, prosesau a systemau sy'n gysylltiedig â phobl.

Gwnaed gwelliannau pellach i Strategaeth Llesiant yr heddlu i adlewyrchu'r ffaith bod Gwasanaeth Llesiant Cenedlaethol yr Heddlu wedi cyflwyno offeryn hunanasesu newydd ar gyfer Canllawiau Blaenoriaethu'r Gweithlu. Mae'r offeryn newydd hwn yn darparu dull symlach (o'i gymharu â'i ragflaenydd, yr offeryn hunanasesu llesiant Golau Glas) i heddluoedd hunanasesu eu cynnydd yn erbyn cyflawni eu strategaethau llesiant eu hunain a'r Strategaeth Llesiant Genedlaethol.

Cafwyd cadarnhad gan y Swyddfa Gartref ym mis Chwefror 2026 y byddai dyfarniad cyflog o 3.9% yn cael ei dalu i brif swyddogion yr heddlu, a fyddai'n weithredol o 1 Medi 2025 ymlaen (o'i gymharu â 4.2% ar gyfer swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu)

Mae'r heddlu wedi llwyddo i gadw achrediad lefel Aur Buddsoddwyr mewn Pobl. Cyfrannodd 55% at yr arolwg, y nifer uchaf ers 2019 pan oedd ond yn 8%. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y datganiadau cadarnhaol ers arolwg 2024 – roedd dros hanner yr ymatebion i 39 o ddatganiadau yn rhai cadarnhaol, gyda'r ystod yn mynd i fyny i 89%. Roedd 70% o'r ymatebion i 21 o'r datganiadau yn rhai cadarnhaol. Nododd yr asesydd fod hyn yn rhywbeth i'w ddathlu, ond dywedodd ei bod yn annhebygol y bydd yr heddlu'n gweld cynnydd mor sylweddol ymhen tair blynedd.
Yn ogystal â hyn, cymerodd dros 200 o swyddogion a staff yr heddlu ran mewn grwpiau ffocws Buddsoddwyr mewn Pobl a gynhaliwyd wyneb yn wyneb ac yn rhithiol ar draws yr heddlu. Hwyluswyd y grwpiau ffocws hyn yn gyfrinachol gan asesydd Buddsoddwyr mewn Pobl er mwyn deall y cyd-destun y tu ôl i'r ymatebion ac i lywio ei hargymhellion.

Lansiwyd cynllun gweithredu Dywedoch Chi, Gwnaethon Ni yn sioeau teithiol y Prif Swyddog, gyda phosteri yn cael eu dosbarthu i bob gorsaf. Datblygwyd cynllun gweithredu drafft manwl a'i rannu â'r Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg ym mis Chwefror 2026. Cyflwynodd yr asesydd Buddsoddwyr mewn Pobl ganlyniadau'r arolwg a hwylusodd sesiynau trafod, cynllunio a gweithredu ar gyfer diwrnod cwrdd i ffwrdd yr Uwch-arweinwyr, a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2026. Bydd allbwn y sesiynau hyn yn cael ei ychwanegu at y cynllun gweithredu manwl, gyda chynnydd yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu hwn hefyd yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael ag adborth o'r holl weithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd yn 2025, e.e. cyfarfodydd o bell â'r Prif Gwnstabl, digwyddiadau Disgwyliadau ac Ymgysylltu.

Mae'r adran recriwtio yn parhau i geisio penodi Dirprwy Reolwr/Uwch Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol, dau Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol a Nyrs Sgrinio Iechyd Galwedigaethol ychwanegol yn dilyn cymeradwyaeth Prif Swyddog y broses gynllunio strategol a sicrwydd o'r cais i gryfhau olyniaeth a gwydnwch y tîm a lleihau dibyniaeth ar adnoddau contractwyr wrth gefn.

Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cynllun peilot ar gyfer sgrinio am ganser y prostad, gyda 200 o brofion wedi'u harchebu hyd yn hyn er mwyn diwallu'r galw. (Roedd 389 o swyddogion a staff yr heddlu yn bodloni'r meini prawf oedran at ddibenion sgrinio yn seiliedig ar ddata Ebrill 2025).

## 4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

**a) Pa ddata mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei gofnodi ar hyn o bryd ynghylch (i) natur y berthynas rhwng y troseddwr a'r dioddefwr**

**(h.y. a ydynt yn ddieithriaid, neu'n adnabod ei gilydd) o ran troseddau â chymhelliad rhywiol yn erbyn menywod mewn mannau cyhoeddus;**

Darparodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad yn nodi bod y berthynas rhwng y dioddefwr a'r un a gyhuddir yn cael ei chofnodi yn Niche.

**(ii) lleoliad y drosedd/troseddau (drwy ddefnyddio categorïau diffiniedig ar gyfer mannau cyhoeddus neu safleoedd preifat)?**

Darparodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad yn nodi nad yw'r heddlu ar hyn o bryd yn categoreiddio mannau cyhoeddus o gymharu â safleoedd preifat ar gyfer adroddiadau. Fodd bynnag, byddai'n bosibl gwneud hynny y tu allan i Niche.

**b) A yw dioddefwyr troseddau â chymhelliad rhywiol mewn mannau cyhoeddus yn cael y cyfle i rannu gwybodaeth ynghylch nodweddion a ddiogelir?**

Darparodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad yn nodi fod rhai nodweddion a ddiogelir (oedran, ethnigrwydd, ac ati) wedi'u cynnwys yn y disgrifiad o'r unigolyn yn Niche.

## 5. I'w nodi

### a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Darparwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r bwrdd yn manylu ar ddigwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith plismona da gan gynnwys yr achos o gloi mewn argyfwng yn Ysgol Maesydderwen. Mae arolwg Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi dod i ben ac mae'r heddlu yn aros am y canlyniadau. Bydd cyfarfodydd briffio gwasanaeth ymateb yr heddlu yn dechrau ym mis Ebrill.

Cododd y Prif Gwnstabl y ffaith bod unigolion wedi cysylltu â'r heddlu parthed diogelwch ymgeiswyr etholiad y Senedd pan oeddynt allan yn canfasio a'r posibilrwydd o gynnig sesiynau briffio diogelwch i ymgeiswyr.

**Camau gweithredu: - Cynghorydd yr Heddlu ar gyfer Swyddogion Etholedig i gynnig sesiwn friffio ar ddiogelwch i ymgeiswyr etholiad y Senedd o fewn ardal yr heddlu.**

Awgrymodd y Prif Gwnstabl, yn dilyn etholiadau'r Senedd, y dylai'r heddlu gynnig sesiynau briffio i ddiweddaru'r swyddogion etholedig yn ardal yr heddlu. Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gefnogol i'r awgrym hwn.

**Camau gweithredu: - Yn dilyn etholiadau'r Senedd, dylid cynnig cyfarfod i'r swyddog etholedig ynghylch y diweddariad gan yr heddlu.**

## b) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddiweddariad byr ynghylch ei weithgareddau a'i gyfarfodydd a gynhaliwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona, gan gynnwys diwrnod ymgysylltu â'r gymuned yng Ngheredigion, Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi a phresenoldeb yn lansiad y Strategaeth Troseddau Gwledig.

## c) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data

Darparwyd papur diweddaru i'r bwrdd gan y Rheolwr Gwybodaeth ynghylch y broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

Mae gwaith mewn perthynas â datblygu system electronig i gwmpasu'r broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn parhau i fod heb ei wneud, mae hyn oherwydd llwyth gwaith a gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd.

Bydd y broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn rhan o'r adolygiad o'r Adran Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfedd sydd newydd ddechrau. Mae Dadansoddydd Newid a Gwelliant Parhaus wedi'i neilltuo i ddarparu cefnogaeth i'r Cynghorydd Diogelu Data i gyflawni'r broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data newydd, yn benodol y broses electronig newydd sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Yr wythnos hon, mynychodd y Cynghorydd Diogelu Data gwrs hyfforddi 'Deallusrwydd Artiffisial a Diogelu Data' a oedd yn cynnwys agweddau a oedd yn ymdrin â deddfwriaeth, dogfennaeth, fframweithiau ac ati, ac ymarferoldeb asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data ac asesiadau risg deallusrwydd artiffisial. Bydd peryglon deallusrwydd artiffisial yn cael eu hystyried yn y broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data newydd.

Mae'r gwaith o recriwtio Cynghorydd Diogelu Data dros dro i gynorthwyo'r maes gwaith hwn yn parhau drwy'r broses Datganiad o Ddiddordeb.

Mae cyfarfodydd blaenoriaethu'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data y Dirprwy Brif Gwnstabl yn parhau i gael eu cynnal, gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Rheolwr Caffael a'r Rheolwr Gwybodaeth, yn mynychu, yn ogystal â'r SCHTh yn ôl yr angen.

Darparodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad yn nodi bod Ditectif Uwch-arolygydd dros dro wedi'i benodi i fod yn gyfrifol am yr adran yn ddiweddar a bod y Prif Gwnstabl wedi cymeradwyo cylch gorchwyl parthed cynnal adolygiad o'r adran.

Roedd y bwrdd yn cytuno y byddai'n fuddiol pe baent yn cael diweddariad ynghylch yr adran Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth yn ystod gwanwyn 2026 yn dilyn y cyfnod adolygu cychwynnol.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i rannu cylch gorchwyl Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth â'r SCHTh.**

**Camau gweithredu: - Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth i'w chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Plismona yn ystod gwanwyn 2026.**

### d) Ymyrraeth, atal ac ymgysylltu: Plant a phobl ifanc

Cyflwynwyd papur diweddaru i'r bwrdd ynghylch Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu: Llif gwaith Plant a Phobl Ifanc.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses o recriwtio Dadansoddwr a Hyfforddwr Plismona Sy'n Canolbwyntio ar Blant a llunio rhestr fer o gyfrifoldebau'r Swyddog Atal Troseddu ymhlith Pobl Ifanc ar draws ardal yr heddlu.

Mae cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal i gwblhau'r broses atgyfeirio a'r mecanweithiau ar gyfer sut y gall swyddogion/staff a phartneriaid atgyfeirio i gangen ymyrraeth y prosiect, a fydd yn gweithredu o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ym mhob awdurdod lleol.

Mae'r gwaith o lunio strwythur llywodraethu'r rhaglen hefyd yn cael ei gwblhau, er mwyn sicrhau bod gwaith craffu a monitro perfformiad misol yn cael ei wneud o fewn yr heddlu a chyda rhanddeiliaid allweddol. Bydd dadansoddwr yn cynnal gwerthusiadau parhaus er mwyn nodi cyfraddau llwyddiant yr atgyfeiriadau neu'r penderfyniadau i wneud ymyriadau pellach ar ran y bobl ifanc yr ymgysylltir â nhw.

### e) Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu

Darparodd yr Uwch-swyddog Cyfrifol, Adolygiad yr Heddlu bapur diweddaru i'r bwrdd ar fodel gweithredu'r heddlu.

Mae tri gwerthusiad yn cael eu gyrru yn eu blaen ar hyn o bryd o fewn yr heddlu.

- Model goruchwylio gogledd/de Powys - Cyflwynwyd yr argymhellion o werthusiad cynllun peilot Model goruchwylio gogledd/de Powys i randdeiliaid allweddol ar 28 Ionawr 2026 a chawsant eu trosglwyddo i Gomander newydd yr Uned Reoli Sylfaenol ar gyfer Powys i'w hystyried.

Bydd ei argymhellion yn dychwelyd at uwch noddwyr i wneud penderfyniad.

- Gwerthusiad chwe mis interim - Rota gwasanaeth ymateb yr heddlu a'r ddalfa - Diben y gwerthusiad interim hwn yw deall unrhyw fanteision/anfanteision y newid hwn er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r ffrwd gwaith Rhifau Gweithredu Dymunol. Disgwylir y bydd y gwerthusiad hwn wedi'i gwblhau erbyn canol mis Mawrth 2026.
- Strwythur plismona gweithredol uwch - y gwerthusiad 12 mis ar ôl gweithredu newid y strwythur plismona gweithredol uwch. Er bod gwireddu'r rhan fwyaf o'r buddion yn gysylltiedig â chanlyniadau arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gan HMICFRS, mae'r gwerthuswr wedi cynnal sawl grŵp ffocws gydag arweinwyr Iwnifform a'r Adran Ymchwilio i Droseddau i ddeall beth sy'n 'gweithio'n dda, beth sydd ddim, a sut y gall weithio'n well'.  Disgwylir y bydd y gwerthusiad hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Y gwerthusiad nesaf a gynlluniwyd yw gwerthusiad o'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig – cyflawnwyd y gwaith o ehangu cylch gwaith yr uned y tu hwnt i raglen beilot gychwynnol Sir Gaerfyrddin, i'w weithredu ledled yr heddlu, yn llawn ym mis Hydref 2024. Yn 2025, comisiynwyd Prifysgol Bangor i gynnal adolygiad academaidd ac adolygiad sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr o'r swyddogaeth. Disgwylir i'r diweddariad yn ymwneud â 'chanfyddiadau interim hanner ffordd trwy'r adolygiad' gael ei ddychwelyd i'r heddlu yn fuan, a disgwylir yr adolygiad llawn erbyn mis Hydref 2026. Bydd yr 'adolygiad hanner ffordd' yn sail i werthusiad sy'n canolbwyntio mwy ar yr heddlu gyda'r cylch gorchwyl wedi'i gyfarwyddo gan uwch-noddwyr. Bydd yr adolygiad hwn yn dechrau ar ôl cwblhau'r gwerthusiad o'r strwythur plismona gweithredol uwch.

Yn dilyn proses datganiad o ddiddordeb lwyddiannus, mae ffrwd waith Gwarant Plismona Bro bellach wedi cyflawni twf o bedwar staff yr heddlu a 29 swyddog yr heddlu o fewn timau plismona ac atal bro. Mae hyn yn cyflawni amcanion yr heddlu mewn ymateb i Warant Plismona Bro 2025/26 yn llawn.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyfleu eu disgwyliad y bydd dyraniad Gwarant Plismona Bro i'r heddlu ar gyfer 2026/27 yn cael ei ddefnyddio i wneud y timau plismona bro yn fwy drwy ychwanegu 12 swyddog heddlu. Cafodd y rhain eu hystyried ymlaen llaw yn y Cynlluniau Gweithlu a Chyllid Strategol ar gyfer 2026/27, ac o ganlyniad, bydd 11 o'r 12 swyddog heddlu ychwanegol yn ymuno â'r sefydliad drwy lwybr mynediad Tîm Plismona Bro Police Now (plismona bro uniongyrchol) ar 15 Mawrth 2026. Bydd y cwnstabl arall (Sir Benfro) yn ymuno yn ystod 2026/27.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i rannu eu hamserlen â SCHTh ar gyfer cwblhau'r broses esblygu.**

### f) Adroddiad Trosolwg Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd 2025

Yn erbyn cefndir Adolygiad Cynhyrchiant yr Heddlu (Cenedlaethol), bwriad llunio adroddiad blynyddol ar lefel yr heddlu yw rhoi gwybodaeth allweddol i'r heddlu, rhanddeiliaid allweddol o fewn trefniadau craffu presennol a'r cyhoedd, gan ddarparu sicrwydd yn y ffordd y mae'r heddlu yn darparu gwasanaethau.

Mae'r adroddiad cyntaf hwn yn tynnu sylw at y gweithgareddau a'r datblygiadau allweddol y mae'r heddlu wedi bod yn ymwneud â nhw, gan ganolbwyntio'n bennaf ar allbynnau o 2025 mewn perthynas â lleihau costau, gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant, a sicrhau gwerth am arian. Mae manylion sylfaenol ychwanegol hefyd wedi'u cynnwys mewn adrannau i ddarparu dealltwriaeth ehangach o bob maes allweddol i'w ystyried, a fydd yn canolbwyntio ar adrodd ar gynnydd o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Mae'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd newydd yn darparu'r sylfeini sydd eu hangen i adeiladu'r seilwaith ar gyfer nodi a chynllunio cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ac adrodd arno..

Mae'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd yn sicrhau y gall yr heddlu ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau a gweithrediadau, cynnal atebolrwydd a gwella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Mae'r fframwaith yn cefnogi datblygiad strategaethau a chynlluniau gweithredol yr heddlu, yn nodi deilliannau cynhyrchiant, arferion effeithiol, effeithlon ac arloesol i lywio dysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y sefydliad a dull rheoli perfformiad parhaus sy'n canolbwyntio ar wella gwasanaethau a datblygu gweithwyr i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r gefnogaeth i weithio'n effeithiol.

Mae'r adolygiad o gynhyrchiant yr heddlu yn tynnu sylw at bwysigrwydd enillion cynhyrchiant ac effeithlonrwydd wrth gyflawni canlyniadau gwell i'r cyhoedd. Mae ymgysylltu â chymunedau a'r cyhoedd yn gwella ein dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar eu hyder mewn plismona, - sy'n hanfodol ar gyfer meithrin ymddiriedaeth a hyder.

Nododd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr adroddiad a chafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r adroddiad a sut y gellir ei ddatblygu ymhellach ar gyfer y dyfodol.

## 6. Unrhyw fater arall

### a) Creu Swydd Uwch Staff yr Heddlu- Ailstrwythuro'r Adran Gyllid

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl adrodd i'r Bwrdd Plismona pan fydd swydd staff heddlu ar raddfa gyflog K neu uwch yn cael ei chreu neu ei dileu.

Cynhaliodd y Cyfarwyddwr Cyllid adolygiad o'r Adran Gyllid ac awgrymodd y dylid cyflwyno dwy swydd pennaeth adran dros dro yn lle'r swydd bresennol, sef un Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Cynigwyd hyn er mwyn darparu Adran Gyllid

fwy gwydn a chynllun olyniaeth cryfach. Bwriedir hysbysebu'r swyddi hyn dros dro am gyfnod o ddwy flynedd.

Mae'r adolygiad wedi arwain at y newid canlynol:

Pennaeth Cyfrifeg Ariannol a Gwasanaethau Trysorlys – Gradd Cyflog "K" (£69,084 - £73,599) – Byddai'r cyflogai yn gweithredu fel Dirprwy Swyddog Adran 151 yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Cyllid – Ni fyddai cost ychwanegol gan y byddai'n disodli swydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol dros dro.

Pennaeth Rheolaeth Ariannol – Gradd Cyflog "K" (£69,084 - £73,599) Byddai'r cyflogai yn gweithredu fel Dirprwy Brif Swyddog Ariannol i'r SCHTh yn absenoldeb y Prif Swyddog Cyllid. Byddai'r cynnydd yn cael ei reoli'n ariannol drwy ddyrchafu un o'r Uwch Gyfrifwyr o radd cyflog "I" i "K", a fyddai'n arwain at gynnydd mewn cost o £13,084.

Trafododd y Bwrdd ailstrwythuro'r adran gyllid o fewn yr heddlu.

**Penderfyniad: Cytunodd y CHTh ar y newidiadau arfaethedig dros dro i'r Adran Gyllid ac i gyflwyno dwy swydd Pennaeth Adran dros dro yn lle'r un swydd Pennaeth Cyllid Corfforaethol bresennol.**

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 24 Mawrth 2026 | I'w yrru yn ei flaen gan |
|---|---|---|
| PB 120 | Cynghorydd yr Heddlu ar gyfer Swyddogion Etholedig i gynnig sesiwn friffio ddiogelwch i ymgeiswyr etholiad y Senedd o fewn ardal yr heddlu. | Heddlu |
| PB 121 | Yn dilyn etholiadau'r Senedd, dylid cynnig cyfarfod i'r swyddog etholedig ynghylch y diweddariad gan yr heddlu. | Heddlu |
| PB 122 | Yr heddlu i rannu eu hamserlen â SCHTh ar gyfer cwblhau'r broses esblygu. | Heddlu |
| PB 123 | Yr heddlu i rannu cylch gorchwyl Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth â'r SCHTh. | Heddlu |
| PB 124 | Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth i'w chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Plismona yn ystod Gwanwyn 2026. | Heddlu |

DIWEDD